

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
20/03/2007

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Gynnu BB
BB Guns

Q12 Michael German: What discussions has the First Minister had regarding a ban on the sale of BB guns in retail outlets in Wales? OAQ2444(FM)

C12 Michael German: Pa drafodaethau mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal ynghylch gwerthu gynnu BB mewn siopau yng Nghymru? OAQ2444(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): I have not had any discussions about a ban on the sale of BB guns in retail outlets in Wales.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaeth ynglŷn â gwahardd gwerthu gynnu BB mewn siopau yng Nghymru.

Hyrwyddo Twristiaeth
Promoting Tourism

Q13 Karen Sinclair: Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government has done to promote tourism in north-east Wales? OAQ2438(FM)

C13 Karen Sinclair: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wneud i hyrwyddo twristiaeth yng ngogledd-ddwyrain Cymru? OAQ2438(FM)

The First Minister: Tourism Partnership North Wales receives significant annual funding to specifically promote and develop tourism in north Wales according to its local needs and priorities while supporting and implementing the national strategy, 'Achieving our Potential 2006-2013'. This financial year, funding has been almost £1.15 million.

Y Prif Weinidog: Caiff Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru swm sylweddol o gyllid blynyddol yn benodol ar gyfer hyrwyddo a datblygu twristiaeth yng ngogledd Cymru yn unol â'i anghenion a blaenoriaethau lleol tra'n cefnogi ac yn gweithredu'r strategaeth genedlaethol, 'Cyflawni ein Potensial 2006-2013'. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae'r cyllid wedi bod oddeutu £1.15 miliwn.

Deintyddiaeth
Dentistry

Q14 Mark Isherwood: Will the First Minister make a statement on dentistry services for children? OAQ2443(FM)

C14 Mark Isherwood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau deintyddiaeth ar gyfer plant? OAQ2443(FM)

The First Minister: Local health boards have the responsibility for commissioning dental services to meet the local oral health needs of all members of their population, including children of course. LHBs may achieve this through a combination of general dental service contracts, personal dental service agreements, and the salaried dental services.

Y Prif Weinidog: Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau deintyddiaeth i ddiwallu'r anghenion lleol o safbwynt iechyd geneuol pob aelod o'u poblogaeth, yn cynnwys plant. Gall byrddau iechyd lleol wneud hyn drwy gyfuniad o gontractau gwasanaethau deintyddol cyffredinol, cytundebau gwasanaethau deintyddol personol, a'r gwasanaethau deintyddol cyflogedig.

Triniaeth Bracytherapi Brachytherapy Treatment

Q15 Owen John Thomas: How much funding has the Welsh Assembly Government allocated for brachytherapy treatment for prostate cancer patients for the 2007-08 financial year? OAQ2447(FM)

C15 Owen John Thomas: Faint o gyllid mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ddyrannu ar gyfer triniaeth bracytherapi i gleifion canser y brostad ar gyfer blwyddyn ariannol 2007-08? OAQ2447(FM)

The First Minister: Health Commission Wales is currently assessing patient need and working with Velindre NHS Trust to agree the business case for an all-Wales service. This information will enable us to determine the amount of revenue funding to allocate to Health Commission Wales to provide this service for 2007-08 and future years.

Y Prif Weinidog: Ar hyn o bryd, mae Comisiwn Iechyd Cymru yn asesu anghenion cleifion ac yn cydweithio ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre i gytuno ar yr achos busnes ar gyfer gwasanaeth i Gymru gyfan. Bydd y wybodaeth hon yn ein galluogi i benderfynu ar faint o gyllid refeniw i'w ddyrannu i Gomisiwn Iechyd Cymru fel y gellir darparu'r gwasanaeth hwn yn 2007-08 ac yn y dyfodol.